Ffordd Glasdir,
Rhuthun,
Sir Ddinbych,
LL15 1QQ

# Ysgol Pen Barras

Ffôn: 01824 704 129
E-bost: pen.barras@sirddinbych.gov.uk
Pennaeth: Mr Dyfan Mael Phillips

23/10/25

Annwyl Rieni,

**Diolchgarwch-** Cawsom fore hyfryd yng Nghapel Bethania ar ddydd Mercher wrth i gynnal ein Gwasanaeth Diolchgarwch yno. Daeth Mr Elwyn Ashford Jones i annerch y plant. Diolch yn fawr i swyddogion Capel Bethania am ganiatáu ni ddefnyddio'r capel. Diolch yn fawr hefyd am y rhoddion caredig. Buodd rhai o blant yr Ysgol i'r Banc Bwyd yn Rhuthun bore i ddosbarthu'r cynnyrch.

**Llys Awelon**- Aeth y Parti Cerdd Dant a'r Grŵp Llefaru i berfformio prynhawn yma i Lys Awelon wrth i Grŵp Cynefin ddathlu blwyddyn ers agor y safle newydd.  Diolch yn fawr I Mrs Helen Williams a Miss Bee am fynd a'r plant yno.

**Cyngerdd Linda Griffiths a Sorela**- Son am noson i'w chofio! Roedd y theatr dan ei sang a chafwyd noson gerddorol a ddiwylliannol arbennig. Angen syniadau ar gyfer Cyngerdd tebyg yn 2026 felly! Syniadau am artistiaid gennych os gwelwch yn dda!

**Eisteddfod Llandyrnog-** Llongyfarchiadau i bawb fu'n cystadlu'n ddiweddar yn Eisteddfod Llandyrnog- braf oedd cael rhannu canlyniadau bore ma yng ngwasanaeth yr Ysgol. Bydd ambell i blentyn yn dod adre gyda gwobrau ariannol- pres gwario dros hanner tymor iddynt!

**Carol yr Ŵyl-** Mae'r côr wedi bod yn brysur yn dysgu Carol Newydd sbon ar gyfer y gystadleuaeth flynyddol, 'Carol yr Ŵyl'- pob lwc iddynt a diolch i Mrs Owen am gyfansoddi'r alaw ac i Mrs Sioned Roberts am arwain y côr.

**Nosweithiau Rieni- Tachwedd 10fed ac 11eg**- Diolch i bawb sydd eisoes wedi cysylltu â staff y swyddfa i drefnu dyddiad/amser ar gyfer y Nosweithiau Rieni- diolch am eich cefnogaeth yn y broses yma.

**CRHA-** Cystadleuaeth Dylunio Plât Calan Gaeaf- Diolch i bawb fu'n cymryd rhan! Mae hon yn gystadleuaeth boblogaidd iawn! Anodd oedd dewis a dethol enillwyr! Cafodd y rhai buddugol eu gwobrwyo bore yn ystod ein gwasanaeth Ysgol. Llongyfarchiadau mawr i bawb. A diolch i Menna a Morfydd Jones am feirniadu'r gystadleuaeth.

**HMS**- Cofiwch, gan ei bod hi'n ddiwrnod HMS i staff yfory (24/10/25), bydd yr ysgol ar gau i ddisgyblion. Bydd yr ysgol yn ail agor i bawb ar ôl hanner tymor ar ddydd Llun, 3ydd o Dachwedd.

Mwynhewch yr hanner tymor.

Yn gywir,

**Dyfan Phillips**
PENNAETH
YSGOL PEN BARRAS

Ffordd Glasdir,
Rhuthun,
Sir Ddinbych,
LL15 1QQ

# Ysgol Pen Barras

Ffôn: 01824 704 129
E-bost: pen.barras@sirddinbych.gov.uk
Pennaeth: Mr Dyfan Mael Phillips

*23/10/25*
*Dear Parents,*

***Thanksgiving –*** *We held our Harvest Thanksgiving Service at Bethania Chapel on Wednesday morning. Mr Elwyn Ashford Jones, was our guest speaker. We are grateful for his contribution. Many thanks to the chapel officials and deacons for allowing us to use the chapel. Many thanks to parents for the generous food parcels and donations. They were distributed to the Ruthin Food Bank earlier today.*

***Llys Awelon*** *– The Cerdd Dant Party and the Recitation Group performed this afternoon as part of Grwp Cynefin's celebration of the new site at Llys Awelon. Many thanks to Mrs Helen Williams and Miss Bee for taking the children there and organising the performances.*

***Linda Griffiths and Sorela Concert*** *– What a memorable evening! The theatre was full and we enjoyed a special musical and cultural evening. We're looking for ideas for a similar concert in 2026 – please share any suggestions for musical artists to join with us!*

***Llandyrnog Eisteddfod*** *– Congratulations to everyone who recently competed in the Llandyrnog Eisteddfod – it was lovely to share the results this morning during the School Service. Some children will be coming home with monetary prizes – spending money for the half-term! Well done all!*

***'Carol yr Wyl'*** *– The choir has been busy learning an original new carol for the annual singing competition, 'Carol yr Ŵyl' – best of luck to them and thanks to Mrs Owen for composing the melody and to Mrs Sioned Roberts for conducting the choir.*

***Parents' Evenings*** *– November 10th and 11th – Thank you to everyone who has already contacted the office staff to arrange a date/time for the Parents' Evenings – we appreciate your support in this process.*

***PTA*** *– Halloween Plate Design Competition – Thank you to everyone who took part! This is a very popular annual competition! It was difficult to choose the winners! The winning entries were awarded this morning during our school assembly. Huge congratulations to all, and thanks to Menna and Morfydd Jones for judging the competition.*

***INSET Day –*** *Please remember, as tomorrow (24/10/25) is an INSET day for staff, Ysgol Pen Barras will be closed to pupils. The school will re-open for everyone after half-term on Monday, November 3rd, 2025.*

*Enjoy the half-term break.*
*Kind regards,*

***Dyfan Phillips***
*Headteacher*
*Ysgol Pen Barras*